Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Adran Addysg**
Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe, SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

*Gofynnwch am:*
*Llinell Uniongyrchol:*
*E-bost:* Addysg@abertawe.gov.uk
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* 12 Mai 2020

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Hoffwn ddiolch i chi am eich holl gefnogaeth dros yr wythnosau diwethaf ers i'n hysgolion gau i'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Rwy'n hynod o falch o'r holl staff sy'n gweithio ar draws ysgolion ac addysg yn Abertawe gan eu bod wedi delio â'r argyfwng hwn mewn ffordd broffesiynol a gofalgar fel maen nhw bob amser yn ei wneud. Rwyf hefyd yn falch o'n plant a'n pobl ifanc anhygoel sy'n parhau i ddangos gwydnwch ac sy'n ymroi'n llawn i'w dysgu. Mae'n gymaint o bleser gweld cyfryngau cymdeithasol yn llawn enghreifftiau o'r pethau cadarnhaol sydd wedi deillio o'r sefyllfa anodd iawn hon.

Yng Nghymru, Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu pryd y bydd yn ddiogel i'n disgyblion, rhieni a staff ysgol ddychwelyd i'n hysgolion. Fel y saif ar hyn o bryd, **nid oes dyddiad** i hyn ddigwydd yng Nghymru.

Pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud i ddysgwyr ddychwelyd i ysgolion, bydd hyn yn cael ei gyfleu ymhell ymlaen llaw i'r rhieni. Dylech fod yn dawel eich meddwl ein bod yn gweithio'n agos gyda'n hysgolion i sicrhau eu bod yn cael cymorth i baratoi ar gyfer y cyfnod hwn.

Yn y cyfamser, dylai gweithwyr critigol a'r rhai y mae angen iddynt ddefnyddio ein canolfannau gofal plant brys barhau i wneud hynny.

Byddwn ond yn ceisio cael mwy o ddisgyblion a staff mewn ysgolion pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Yn gywir

N. J. Williams

Nick Williams
Cyfarwyddwr Addysg

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.
To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL